**Cyngor Cymuned Llaneilian (390)**
Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd Mai 12, 2026 am 7yh yn Neuadd Bentref Penysarn.

**Presennol:** Alan Williams, Patsy Allen, Dafydd Griffiths, Carol Whitaker, Gordon Hayes, Ian Evans, John Griffiths, Dewi Jones, James Roe, Carli Evans Thau (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Alison Williams, Hefina Williams

**1 Croeso**
Bu Alan Williams gadeirio'r cyfarfod a chroesawu pawb yn bresennol.

**2 Datgan Diddordeb**
Ian Evans, Carol Whitaker, Gordon Hayes – cais y Neuadd am gefnogaeth

**3 Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd**
Bu Ian Evans gynnig bod Alan Williams a Patsy Allen yn parhau am flwyddyn arall wrth nodi bod y Cyngor yn cydweithio'n dda dan eu harweiniad. Bu eilio'r cynnig gan Carol Whitaker a bu'r aelodau yn unfrydol gefnogol. Bu Alan Williams a Patsy Allen ddiolch i'r aelodau am eu cefnogaeth.

**4 Cadarnhau Aelodaeth Pwyllgorau**
Cadarnhawyd bod y clerc wedi dosbarthu rhestr o'r pwyllgorau er gwybodaeth cyn y cyfarfod. Bu cytuno na fyddai newid onibai bod Dewi Jones yn cymryd lle Patsy Allen ar Bwyllgor y Llithrfa.

**5 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**
Cymeradwywyd y cofnodion – cynnig Dafydd Griffiths, eilio Ian Evans.
Bu tynnu sylw at gamsillafiad ar eitem 5.3.

**6 Materion yn Codi**
Ni fu materion yn codi nad oedd wedi eu cynnwys ar yr agenda.

**7 Diweddariadau**

7.1 Caeau Chwarae – cadarnhawyd bod y gamdda ym Maes Llwyfo wedi ei drwsio erbyn hyn. Cadarnhawyd derbyn adroddiadau Medwyn Owen yn dilyn arolygon caeau chwarae a bu diolch i'r pwyllgor am eu gwaith i gynnal y cyfleusterau cystal.

7.2 Llithrfa – cadarnhaodd y clerc nad oedd wedi derbyn y goriadau gan CSYM i'w dosbarthu er bod nifer o geisiadau wedi eu derbyn yn barod. Mae'n debyg bod oedi oherwydd yr etholiad.
Nodwyd nad oedd CSYM wedi newid y gabions hyd yma fel yr oeddent wedi addo. Bu tynnu sylw at ebost Christian Branch drwy law Aled Morris Jones ynglyn a'r arwydd newydd ar ben y llithrfa, er bod y Cyngor Cymuned wedi gofyn am arwydd newydd, ni fu trafodaeth am maint, cynllun na cynnwys yr arwydd. Nodwyd siom eto bod y bocs dosbarthu baw ci wedi ei ddifrodi gan y contractiwr oedd yn gosod yr arwydd. Cytuno byddai'r clerc yn ymateb yn ol i Aled Morris Jones.

7.3 Mynwentydd – Carmel - bu'r clerc gadarnhau ei bod wedi ysgrifennu yn ol at y Bedyddwyr ond heb gael ymateb hyd yma, gobeithir cael cyfarfod a hwy i drafod ymhellach. Bu tynnu sylw bod un o'r gorchuddion wedi disgyn oddi ar ffenestri'r Capel ac angen sylw.

Llaneilian – nodwyd bod y meinicau wedi eu gosod yn y gardd goffa. Cadarnhawyd bod angen mwy o bridd o dan y goeden celyn a chadarnhau maint a lleoliad bocs blodau/planhygion er mwyn gosod placiau coffa yn y dyfodol. Bu cadarnhau geirfa ar gyfer plac yn cydnabod rhodd y diweddar Dorothy a Gwyn Thomas, Perthi tuag at y gardd goffa.

7.4 Polisi a Chyllid – cadarnhawyd bod Addewid Cwrteisi a Pharch Un Llais Cymru wedi ei rannu a'r aelodau drwy ebost. Bu'r Cyngor yn unfrydol yn ei fabwysiadu.

7.5 Cronfa TMI – cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi eu rhannu a'r aelodau er gwybodaeth. Nodwyd siom nad oedd swyddogion CSYM wedi ymateb i'r gwahoddiad i gwrdd a'r Cyngor. Cytuno gofyn i Aled Morris Jones gysylltu a hwy er mwyn trafod ymhellach.

7.6 Llwybrau – cadarnhawyd derbyn ymateb gan Arwel Evans a bu cyflwyno ymateb posib i'r pwyntiau a godwyd ganddo. Bu gytuno gofyn bod CSYM yn ail edrych ar y llwybr o Castell at Nebo gan gadw at y llwybr gwreiddiol.

Cadarnhawyd bod arwydd Porth Gwichiad wedi ei drwsio a'i ail osod, nodwyd bod y grisiau i lawr at y traeth angen sylw, bydd tynnu sylw Arwel Evans.

Trafodwyd y posibilrwydd o ail ffensio llwybr Cadi Rondol, y costau a'r cyfrifoldebau ynghlwm. Cytuno trafod ymhellach – prosiectau cyfalaf isod.

Bu cyfle i adolygu'r teithiau cerdded cymunedol a bu diolch i Patsy Allen a Dafydd Griffiths am eu gwaith i drefnu ac arwain y teithiau. Trafodwyd cyfrifoldebau ynghlwm a trefnu'r teithiau, y posibilrwydd o sefydlu grwp anibynnol, hyfforddi mwy o bobl i arwain y teithiau a chostau llogi'r neuadd. Nodwyd mai pwrpas y teithiau oedd i annnog pobl i gerdded a hyrwyddo'r cylchdeithiau o fewn ardal Llaneilian. Cytuno byddai cysylltu a CSYM i weld os oedd unrhyw arian ar gael tuag at hyfforddi gwirfoddolwyr i arwain teithiau yn y dyfodol. Bu Patsy Allen a Dafydd Griffiths gytuno parhau i drefnu ac arwain y teithiau am y tro.

7.7 Pwyllgorau Allanol – bu Carol Whitaker atgoffa aelodau bod y Neuadd yn dathlu can mlynedd eleni ac y bydd arddangosfa yn y Neuadd ddiwedd mis Hydref. Daw cais i gyflwyno eitemau, lluniau a hanesion i'w cynnwys yn yr arddangosfa.

7.8 Bioamrywiaeth / Amgylcheddol – bu tynnu sylw at ebost gan CSYM yn nodi eu bod yn lleihau yr ardaloedd ble maent yn torri gwair er budd bioamrywiaeth ac yn debyg yn arbed costau torri.

## <u>8 Materion Priffyrdd a Thrafnidiaeth Cyhoeddus</u>

8.1 Daethpwyd a cais gan aelod o'r gymuned am linellau gwyn tu allan i'w ty, mae cerbydau yn parcio mor agos i'r fynedfa eu bod yn cael trafferth cael i fewn ac allan o'r giat. Cytuno tynnu sylw CSYM a'r tri aelod sirol.

8.2 Nid oes diweddariad hyd yma gan CSYM am y drychoedd sydd wedi eu gaddo ar gyfer cyffyrdd Lon Gors a Lon Lletroed. Bu'r clerc gadarnhau ei bod wedi cysylltu a'r swyddogion perthnasol am wybodaeth pellach.

8.3 Nodwyd nad oedd rhai o'r goleuadau stryd ger Joint Houses yn gweithio'n gyson.

8.4 Bu tynnu sylw at arwydd 20mya oedd wedi gostwg ger Hen Siop Nebo. Bu gwirfoddoli ei ail-osod.

8.5 Bu diolch i CSYM am lenwi'r tyllau yn y ffordd ger Bryn Dasi ond bu nodi bod y tyllau yn dechrau suddo eto. Petai CSYM yn eu llenwi yn iawn y tro cyntaf byddai arbed arian wrth peidio ail ymweld a phob lleoliad.

8.6 Cadarnhawyd derbyn ymateb gan Iwan Cadwaladr mewn ymateb i ymholiad am y gwasanaeth bws o Benysarn i Foelfre. Nodwyd bod gwaith ymchwil pellach wedi dod a gwybodaeth am grantiau trafnidiaeth a priffyrdd at sylw'r Cyngor Cymuned. Bu cytuno tynnu sylw Aled Morris Jones a gofyn iddo wirio gyda'r swyddogion perthnasol gan nad oeddent y ymateb i'r Cyngor yn uniongyrchol:

- Beth yw Cam 1 a Cam 2 mewn perthynas a'r £150k sydd wedi ei ddyranu i waith ar yr B5111, sut mae'r gwariant yn cydfynd a'r trafodaeth au WelTag?
- Beth a olygir gan y £250k sydd wedi ei glustnodi tuag at integreddio gwasanaethau? Byddai posib gwellau amseru a chydlynnu gwasanaethau.
- Mae clustnodi £50k tuag at teithiau tacsi i lenwi bylchau -sut mae cael mynediad i'r

cynnig/ gwasanaeth yma?

8.7 Cytuno byddai cyflwyno papur i'r cynghorwyr sirol yn cydlynnu materion a phryderon a nodi siom nad oedd CSYM yn ymateb yn uniongyrchol.

## 9 Cynllunio

Cadarnhawyd bod unrhyw ddogfennau cynllunio wedi eu hanfon i'r aelodau drwy ebost.

9.1 Ceisiadau – cyflwynwyd un cais i'w ystyried –
FPL/2026/45 Rallt, Nebo – dim sylwadau pellach

9.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn –
HHP/2026/46 Argraig, wedi ei ganiatau.

9.3 Unrhyw fater cynllunio arall – dim

## 10 Materion Ariannol

10.1 Taliadau - Cymeradwywyd y taliadau canlynol
£84.00 Sign and Design (arwyddion offer ffitrwydd)(TMI)
£613.28 Cyflog Clerc
£129.60 M Owen (arolygon caeau chwarae)
£459.80 HMRC PAYE
£1127.47 Sion Williams (cynnal a chadw)
£219.60 Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd (gwaith cyfreithiol – perllan)(TMI)
£912.38 Gallagher Insurance (yswiriant)
£218.00 Anglesey Computer Solutions (gwefan)
£20.00 Bynting yr Urdd (Harddu Bro)

10.2 Ceisiadau am Arian – daw dau gais am gefnogaeth ariannol –
Mencap Mon – cytuno peidio a chyfrannu ga neu bod tu alan i'r plwyf.
Neuadd Bentref – cais am meinicau i ddathlu canmlwyddiant y neuadd. Bu cytuno yn unfrydol cefnogi'r cais, ond bod angen cytuno o ba ffynhonell byddai ariannu'r prosiect.

10.3 Archwiliad – dim diweddariad am archwiliad 2024/25; mae archwiliad mewnol 2025/26 ar fin dechrau.

## 11 Coedwig Cymunedol (Perllan)

Bu tynnu sylw bod y pentwr sglodion yn parhau yn yr ardal, a bod trigolion yn pryderu am lygod mawr. Y clerc i gysylltu a CSYM i'w hatgoffa i'w symud.

Bu'r clerc gadarnhau bod cyfreithiwr y Cyngor Cymuned wedi ymateb i'r penawdau telerau newydd, ac yn fodlon a'r cynllun oedd wedi ei ddarparu gan CSYM. Bu arwyddo'r ddogfen er mwyn gallu symud ymlaen i'r cam nesaf.

## 12 Iechyd a Diogelwch

Dim nad oedd eisioes wedi eu trafod.

## 13 Prosiectau Cyfalaf

Mae CSYM wedi clustnodi £14.4k i'r Cyngor Cymuned tuag at brosiectau cyfalaf. Bu pob aelod yn ei dwrn gyflwyno eu syniadau am nifer o brosiectau ac wedi trafodaeth manwl, bu cytuno chwilio am brisiau a gwybodaeth pellach ar gyfer y prosiectau canlynol cyn y cyfarfod nesaf er mwyn trafodaeth pellach a chadarnhau pa brosiectau fyddai yn cael eu cynnwys yn y cais am arian Balchder Bro:

13.1 Perllan Angharad – datblygu fel ardal iechyd a lles amgylcheddol, byddai posib talu y gost o'r brydles (99 mlynedd) a'r costau cyfreithiol ynghlwm. Mae'r Cyngor eisioes wedi cytuno ar y prosiect, byddai posib defnyddio arian TMI tuag at agweddau eraill / i ddenu grantiau eraill yn y dyfodol.

13.2 Ffensio Llwybr Cadi Rondol – roedd ymatebion cymysg, mae angen cadarnhau hawliau, cyfrifoldebau, costau cyfalaf ffensio, a phwy fydda'n gyfrifol am gynnal y llwybr a'r ffens i'r dyfodol. Cytuno cysylltu ag Arwel Evans am ganllaw, mae CSYM eisioes wedi bod mewn trafodaethau gyda'r tirfeddianwr.

13.3 Symud yr amserlen electroneg (solar) o Gadfa i'r Sgwar (gyferbyn a'r siop) – dim ond costau tynnu, gosod, ac ail raglennu – angen hawl a chadarnhad gan CSYM.

13.4 Arwyddion sy'n fflachio – 40mya ar y ffordd osgoi, ac yn ddibynnol ar gost, 20mya wrth ddod i fewn Benysarn, ger yr Ysgol ac yn Nebo (4)

13.5 Llwybr o'r Gofeb hyd at Mynwent Bosra – angen crafu ac o bosib ail wynebu, mae CSYM eisioes wedi cytuno i'r prosiect yma, ond heb gael arian i'w gwblhau.

13.6 Meinicau a byrddau – bydd angen meinicau i'r Berllan (gweler 1) a hefyd o bosib cynnwys meinicau i'r Neuadd fel rhan o'r prosiect

13.7 Trin cysgodfannau bws a gosod rhai newydd – mae'r Cyngor wedi bod yn trafod trin cysgodfannau ers peth amser, ac mae cais i osod cysgodfannau ger Ardwyn a gyferbyn a'r siop.

13.8 Ffurfioli'r llwybr o Lon Gors heibio Maes Llwyfo – lefelu a gosod gwyneb i hwyluso defnydd.

**<u>14</u> <u>Gohebiaeth</u>**
Cadarnhawyd bod eitemau o ohebiaeth wedi eu hanfon ir aelodau drwy ebost wrth eu derbyn.

**<u>15</u> <u>Unrhyw Fater ar gyfer Agenda'r Cyfarfod Nesaf</u>**
Aelodau i gysylltu a'r clerc mewn da bryd os am gynnwys eitemau ar yr agenda.

**<u>16</u> <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u>**
Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn am 7yh nos Fawrth, Mehefin 9, 2026

Bu'r cyfarfod orffen am 9.45yh o'r gloch

**Alan Williams, Cyngor Cymuned Llaneilian**
CET05/2026